

Cefnogir yn garedig gan:



Briff y Gynhadledd: Cau'r Bwlch Canser Marwol



Estyn gobaith. Estyn llaw.
Give hope. Help cope.
tenovuscancercare.org.uk

Call our free Support Line
0808 808 1010
Ffoniwch ein Llinell Gymorth rhadffôn

Cau'r Bwlch Canser Marwol

Mae chwech o'r canserau llai goroesadwy – sef canser yr ysgyfaint, y pancreas, yr afu, yr ymennydd, yr oesoffagws a'r stumog, yn gyfrifol am 40% o'r holl farwolaethau canser cyffredin yng Nghymru ac maen nhw'n cyfrif am chwarter yr achosion.

Mae gan bobl sy'n cael diagnosis o'r canserau hyn ddisgwyliad oes hynod o isel. Yng Nghymru, mae'r cyfradd o oroesi 5 mlynedd tua 14%, o gymharu â 63% ar gyfer canserau cyffredin eraill.

Ar gyfer pob math o ganser, mae'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 20% yn fwy tebygol o ddatblygu canser na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y canserau llai oroesi, mae'r bwlch amddifadedd yn llawer mwy; mae pobl yn rhannau mwyaf difreintiedig Cymru bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu un o'r chwe chanser na phobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Dyma'r bwlch canser marwol.

Yn hanesyddol, nid ydym wedi gweld gwelliannau mewn diagnosis, triniaeth gynnar a goroesiad ar gyfer pobl sy'n cael diagnosis o ganser sy'n llai goroesadwy o gymharu â chanserau cyffredin eraill. Bu sylw benodol, buddsoddiad ac ymchwil yn gyfrifol am gyfrannu at ddatblygiadau arloesol mewn canserau cyffredin eraill. Gallwn ailgreu hyn gyda chanserau llai goroesadwy.

Mae'n bryd i gau'r bwlch canser marwol.

Beth sydd ei angen?

Diagnosis cynharach:

Mae angen ymrwymiad penodol arnom ni i wella cyfraddau diagnosis cynnar ar gyfer canserau llai goroesadwy. Hynny yw, ymyriadau arloesol wedi'u hategu gan dystiolaeth fel dulliau sgrinio wedi'u targedu ar gyfer canser yr ysgyfaint, rhagor o wybodaeth gyhoeddus ac ymwybyddiaeth o symptomau.

Diagnosis yn gynt:

Mae oedi mewn llwybrau diagnosis yn cyfrannu at ganlyniadau gwael. Mae gan bobl llai o opsiynau triniaeth os ydy eu diagnosis yn cael ei ohirio oherwydd amseroedd aros hir am sganiau ac apwyntiadau, sy'n golygu nad oes ganddynt siawns o wella. Gall targed 62 diwrnod y Llwybr Amheuaeth o Ganser fod yn fanteisiol i lawer o ganserau, ond mae'n gyfnod rhy hir i ganserau llai goroesadwy. Rhaid i'r llwybr tuag at ddiagnosis fod yn gynt o'r adeg y mae amheuaeth o ganser.

Llwybrau Optimaidd:

I'r rheiny byw gyda chanser, dylai llwybr optimaidd gwmpasu'r sbectwm gofal cyfan - o symptomau cychwynol hyd at ddiagnosis a mynediad at y driniaeth a gofal gorau. Gall rhoi diagnosis a thrin pobl yn gynt helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn wynebu canlyniadau gwell, yn cael triniaeth, yn goroesi am gyfnod hirach ac yn cael ansawdd bywyd gwell.

Gofal cymorth gwell:

Mae prinder o wybodaeth ar gael am brofiad y claf ac ansawdd bywyd cleifion sydd â chanser llai goroesadwy. Mae llai o bobl yn goroesi'n ddigon hir i gyfrannu at arolygon cenedlaethol fel Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cymru (WCPES). Dim ond drwy ddeall a mesur ymatebion y gall GIG Cymru wella sy'n golygu eu bod yn methu â deall a gwella profiadau ac ansawdd bywyd y rhan fwyaf o bobl sy'n cael diagnosis o ganser llai goroesadwy.

Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwiliad:

Mae angen buddsoddiad mewn technolegau diagnostig newydd a phroffion a all helpu i roi diagnosis cynharach o ganserau llai goroesadwy neu helpu i frysbennu pobl sydd angen ymchwiliad pellach. Mae hefyd angen buddsoddiad i ddod o hyd i ddulliau gwell o drin y canserau llai goroesadwy yn llwyddiannus.

Rhaid i wasanaethau cancer ledled Cymru drawsnewid i wella canlyniadau ar gyfer cleifion cancer; i ddod dros y pandemig a lleihau anghydraddoldebau cancer.

Gallwch gefnogi ein gwaith drwy ofyn cwestiynau a siarad yn nadleuon y Senedd i fynegi eich cefnogaeth i gamau gweithredu clir i wella canlyniadau i bobl â llai o gyfraddau goroesi cancer.

Mae'n bryd i gau'r bwloch cancer marwol.